

Calan Gaeaf a Goleuni Crist

Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd. (Ioan 1:5)



Erbyn hyn mae Gŵyl Calan Gaeaf wedi tyfu i fod yn un o'r prif wyliau sy'n cael eu dathlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, ac yn fasnachol yn werth bron cymaint â chyfnod y Pasg i siopau. Fe welwn archfarchnadoedd yn llawn o fygydau a phob math o geriach wedi eu creu i achosi ofn a dychryn. Gŵyl Americanaidd sy'n pwysleisio'r tywyll a'r dychrynlyd ydyw, gan orfoleddu mewn ofn a marwolaeth.

Mae'r dathliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y degawd diwethaf, ac mae'n siŵr gen i y bydd plant yn galw heibio gyda'r 'trick or treat'. Bydd llawer iawn o bartion a disgos plant hefyd yn cael eu cynnal mewn pentrefi a threfi ledled Cymru. Fel eglwysi rydym yn naturiol yn bryderus am yr effaith negyddol mae hyn yn ei gael ar fywydau plant, ac yn poeni hefyd am yr henoed sy'n cael eu dychryn gan yr ymwelwyr dieflig. Ein hymateb ar y cyfan felly yw anwybyddu'r holl beth. Ond cofiwn hefyd fod y cyfnod yma'n Wyl yr Holl Saint, a bod llawer y gallwn ei wneud fel unigolion ac eglwysi i atgoffa ein cymdeithas mai gwell o lawer yw byw yn y goleuni na chuddio yn y tywyllwch.



Rhannu ychydig o Newyddion Da

Fel unigolion, beth am i ni agor y drws i blant a fydd yn galw, gan rannu rhywbeth o newyddion da lesu Grist gyda nhw? Fe fydd plant yn gobeithio cael fferins, ond yn ogystal â rhoi fferen neu ddwy, beth am roi llyfryn Cristnogol neu gomig Cristnogol iddynt yn ogystal. Mae gennym gopiau o gomig â'r teitl *Stori Fawr Duw*, sydd ar gael i'w prynu am 50c yr un, sy'n pwysleisio bod lesu yn Oleuni'r Byd. Neu mae modd cael copi o lyfryn gan Scripture Union, sef 'Iesu yw Goleuni'r Byd'.

Parti Goleuni

Yn ogystal, mae dau adnodd gwerthfawr ar gael sy'n galluogi eglwysi i drefnu digwyddiadau 'gwahanol' adeg Calan Gaeaf. Mae Scripture Union wedi darparu pecyn o adnoddau ar gyfer cynnal 'Parti Goleuni' sy'n llawn syniadau am gemau a gweithgareddau yn sôn am lesu fel goleuni'r byd. Yn hytrach na dychryn plant a'u cyflwyno i bethau tywyll a dieflig, dyma adnodd sy'n ein helpu i gyflwyno newyddion da. Ceir ynddo nifer o syniadau da ar sut i gynnal noson hwyliog gyda phlant, yn llawn crefft, gemau a gweithgareddau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r adran Calan Gaeaf ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul: Calan Gaeaf a Goleuni Crist - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (ysgolsul.com)

Mae'n gloywi, llewyrchu, disgleirio, pelydru, Hebddo, mae'n dywyll, does dim yn weladwy –

Dim lliw, dim harddwch, na dim i'n rhyfeddu.

Am beth ydw i'n sôn? Wel, ie – goleuni!

Yr heulwen, lampau, tortshys, canhwyllau – Cymaint o ffyrdd y cawn ni ein golau... Ond wyddwn i ddim, fod yna ddyn, Sydd hefyd yn olau ohono ei hun!

Hei, aros am funud. Nid dyma'r gwirionedd! Mae gan bobl groen, ac esgyrn a dannedd! Pwy all hwn fod? Mae hyn yn fy synnu. O ble daeth y dyn? Beth wnaeth o – tywynnu?

Ei enw yw Iesu, ac ef yw mab Duw. I ddangos ei gariad, daeth yma i fyw. 'Goleuni wyf fi, fe ddeuthum i'r byd I ddangos y ffordd i'r bobl i gyd.'

Ond sut all hyn fod? All dyn fod yn olau? Ystyriwn ymhellach, a gwrandawn ar ei eiriau.

Mae hyn yn gwneud synnwyr, fe welwn yn glir Fod yr hyn a ddywedodd o hyd yn wir.

Mae'r golau yn dangos y ffordd sydd yn dda, Pryd i ddweud 'ie' a phryd i ddweud 'na'. Mewn twyllwch, mae golau yn difa pob braw, Mae'n dangos y gwir, beth bynnag a ddaw.

Iesu'r goleuni, i mi ac i ti, A fu'n byw yn ein plith, i ddangos i ni Cymaint mae Duw'n ein caru i gyd, Trwy'r da a thrwy'r drwg, dyma oleuni'r byd.

Gyda Iesu'r goleuni, mae'n cynnig i ni Y ffordd orau i fyw a heddi oddi fry. Llawenydd a gobaith yw ei roddion mawr Mae yno i'n dal ni, os syrthiwn i lawr.

Ni fyddwn yn unig, ei gwmi a gawn. Mae yno bob amser, ble bynnag yr awn. Bydd ef yn ein harwain a'n helpu ni gyd I fod fel goleuni i bawb yn y byd.

Cânt weld mawredd Duw, a phrofi ei gariad, Dyma ei gynllun, hyn oedd ei fwriad Iesu ei fab yn oleuni i'r byd Yn gwneud y gwahaniaeth i'w bobl i gyd.

Y peth da i ti, yw dy fod wedi canfod Mai goleuni yw Iesu, sy'n fwy na 'thywyniad'.


A nawr dyma'r amser i ti benderfynu, Ac os wnei di ofyn, ef fydd dy oleuni.

Adnodd newydd ar gyfer 2022 yw llyfryn o'r enw 'Iesu yw'r Goleuni', lle geir cerdd wedi ei hysgrifennu gan Jemma Willis a'i haddasu i'r Gymraeg gan Delyth Wyn Davies. Beth am ddarllen hon gydag unrhyw blant ddowch ar eu traws dros yr wythnos nesaf. Mae'r llyfrynau Cymraeg ar gael o wefan Scripture Union.

Hoff Emynau'r Cymry, gol. Robert Nicholls (Cyhoeddiadau'r Gair, pris: £9.99)

Dros gyfnod yr haf, gofynnodd golygyddion *Cenn@d* i nifer o bobl sôn am eu hoff emynau, a hynny fel paratoad ar gyfer cyfrol newydd a oedd ar ei ffordd o'r wasg. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gyfres hon yn *Cenn@d*.

Erbyn hyn cyhoeddwyd y gyfrol honno gan Gyhoeddiadau'r Gair, sef *Hoff Emynau'r Cymry*. Casglwyd y cynnwys ar gyfer y gyfrol gan Robert Nicholls, ac o fewn ei chloriaid mae 64 o Gymry adnabyddus yn dewis eu hoff emyn, gan nodi'r rheswm dros y dewis. Mae'r gyfrol bellach yn y siopau, ac ar gael am £9.99. Dyma anrheg Nadolig perffaith i ffrindiau a theulu.



Wrth gyflwyno'r gyfrol, meddai'r awdur:

Buont hwy yn canu uwch fy nghrud,
Uwchben fy machgendod a'm
hieuentid,
Fel côr o adar Cristionogol.

'Dyna eiriau agoriadol Gwenallt yn ei gerdd "Yr Hen Emynau", ac rwy'n siŵr fod llawer yn gallu tystio ac uniaethu â'r geiriau. Heb os, mae gan yr emyn a'r emyn-dôn le amlwg a blaenllaw yn ein traddodiad llenyddol a cherddorol fel cenedl, ac nid ystrydeb fyddai dweud lle bynnag y bydd Cymry'n cyfarfod â'i gilydd bydd canu emynau yn dilyn yn aml.

'Mae poblogrwydd ein hemynau i'w weld o fewn repertoire ein corau niferus. Er hynny, gyda chynifer o gapeli ac eglwysi'n cau a lleihad sylweddol yn nifer y cymanfaoedd canu a gynhelir, beth fydd dyfodol ein canu cynulleidfaol yn yr unfed ganrif ar hugain, tybed? Wrth gyfeirio at gyflwr canu cynulleidfaol yng Nghymru yn 1955,

ysgrifennodd John Hughes fel hyn yn ei ragair i adran y gerddoriaeth yn *Y Llawlyfr Moliant Newydd*:


Ond daeth trai ar ymroddiad yr eglwysi, a chollwyd llawer o'r diddordeb a welwyd gynt ynglŷn â'r rhan hon o'r gwasanaeth crefyddol, ac aeth yr Ysgol Gân yn beth pur ddieithr yn yr eglwysi.

'Os oedd hynny'n wir yn 1955, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu'n enbyd erbyn hyn! Ond rhaid peidio â digaloni'n llwyr, a'n gwaith a'n dyletswydd yn wir yw ceisio cadw'r fflam ynghyn tra byddom. Brwydrwn i gadw, meithrin a diogelu'r ddawn brin sydd gennym fel Cymry tuag at ganu cynulleidfaol, a thrwy hynny sicrhau parhad rhan bwysig, gyfoethog o'n hetifeddiaeth gerddorol a llenyddol i'r cenedlaethau a ddaw.

'Rwy'n ddiolchgar i Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, am y gwahoddiad i lunio'r gyfrol hon ac am fod mor amyneddgar wrth ddisgwyl am ei hymddangosiad. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu gyda'u hoff emyn a rhannu profiadau personol wrth wneud. Synais at yr amrywiaeth o emynau a ddewiswyd; yn wir, ychydig iawn o "ailadrodd" a gafwyd o gwbl, a phan ddigwyddodd hynny roedd stori ac atgof pawb wrth reswm yn wahanol ac yn unigryw iddyn nhw eu hunain. Gobeithio bod eu profiadau hwythau o ddiddordeb a bendith i'r sawl sy'n darllen. Braint yn bersonol oedd cael rhannu un o'm hoff emynau gan Williams Pantycelyn, a phwy'n well na'r Pêr Ganiedydd ei hun i grisialu'r dyhead o greu "nef y nefoedd yn gân heb ddiwedd byth".'

Fel esiampl o gynnwys y gyfrol, dyma gyfraniad yr awdur ei hun:

Robert Nicholls – Brodor o Benclawdd; addysgwyd yn Ysgol Tre-gŵyr a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn organydd ac yn arweinydd corawl adnabyddus yng Nghymru a thu hwnt, sefydlodd Gôr Meibion Taf yng Nghaerdydd yn 2004. Mae wedi arwain Cymanfa Ganu Genedlaethol Awstralia bum gwaith ac wedi ymddangos fel organydd swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn aml, gan gyfeilio i brif seremonïau'r Orsedd a'r Gymanfa Ganu Genedlaethol. Bu'n Olygydd Cynnwys Diwylliant S4C a Chyfarwyddwr Tŷ Cerdd – Music Centre Wales. Wedi iddo deimlo'r alwad i'w gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth Gristnogol, bellach, ers mis Tachwedd 2015, mae'n weinidog ar Eglwys Gymraeg Canol Llundain, eglwys gydenwadol sy'n cyfarfod yn Eastcastle Street, Oxford Circus.



Pan ofynnwyd i mi baratoi'r gyfrol hon ac fel rhan o'r broses cael cyfle i ddewis fy hoff emyn, rhaid cyfaddef fy mod wedi cael trafferth eithriadol a hynny'n bennaf oherwydd bod cynifer ohonynt! Mae'n debyg iawn i orfod dewis hoff ddarn o farddoniaeth neu gerddoriaeth, ac rwy'n siŵr bod llawer yn dibynnu ar deimladau personol ar y pryd – mae adegau o lawenydd, tristwch neu hiraeth yn gallu dylanwadu ar y dewis.

Wrth feddwl am ddyddiau plentyndod a'm magwraeth ym Mhenclawdd, un o'r emynau cyntaf i mi gofio ei ddysgu ar y cof oedd 'Dod ar fy mhen dy sanctaidd law, O dyner Fab y Dyn'. Roedd yn ffefryn mawr yn yr ysgol gynradd, yr Ysgol Sul a'r Gymanfa Ganu flynyddol adeg y Sulgwyn. Geiriau sy'n anodd i blentyn eu deall a'u dirnad, ond geiriau sydd wedi aros gyda mi ar hyd fy oes. Daw ambell linell o'r emyn yn ôl i'r cof o bryd i'w gilydd, a meddyliaf yn aml am linellau fel 'gwna fi yn hoff o wrando cwyn a hoff o faddau bai / ... fel bo i eraill drwof fi adnabod cariad Duw'. Yn sicr mae'r emyn hwn yn dwyn atgofion melys o ddyddiau cymanfaoedd yn y tri chapel ym Mhenclawdd – Y Tabernacl, Bethel a Trinity.

Un arall a'm swynodd pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd yn Nhref-gŵyr oedd yr emyn Saesneg 'He who would valiant be ... / Let him come hither', a'r pennill hwnnw sy'n sôn am 'Hobgoblin nor foul fiend' yn peri syndod a rhyfeddod bob amser! Daw eraill i'r cof yn syth, megis 'Hoff yw'r Iesu o blant bychain' ac 'O! rwyf yn hoffi canu, / Canu â chalon iach' gyda'r gytgan swynol yn newid amseriad o 2/2 i 6/8: 'Canaf, mi ganaf, / Hosanna a seiniaf, / Yr Iesu a folaf hyd derfyn fy oes'.

Mae cymaint o emynau yn dwyn atgofion am resymau amrywiol; yn aml mae'r dôn yn apelio'n fwy na'r geiriau, a sôn am 'hoff dôn' fyddwn ni'n aml yn hytrach na hoff emyn, rwy'n siŵr. Ond mae un emyn a thôn yn dal i atseinio yn fy meddwl o hyd, ac rwy'n cofio eu canu ym Methesda, Abertawe, a'r Tabernacl,

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Hoff Emynau'r Cymry, gol. Robert Nicholls

(parhad o dudalen 4)

Penclawdd – y ddau gapel a fu cymaint o ddyllanwad arnaf yn ystod blynyddoedd fy ieuencid, a hwnnw yw'r emyn 'O tyred, lôr tragwyddol, / mae ynot ti dy hun / fwy moroedd o drugaredd / nag a feddyliodd dyn'. Y geiriau gan Williams Pantycelyn a'r dôn 'Whitford' gan John Ambrose Lloyd. Y ddau yn cynrychioli'r gorau o'n traddodiad emynyddol a cherddorol, yn fy marn i.

Rwy'n cofio hefyd clywed datganiad eneiniedig o'r emyn a'r dôn ar hen record finyl 'Great Hymns of The Welsh Revival' a recordiwyd yng Nghapel Penuel, Llanllechid, gyda Dr Terry James yn arwain, a'r pregethwr a'r Prifardd William Morris yn rhoi anerchiad byr a ry cychwyn yn sôn am ei brofiad personol ef o ddiwygiad crefyddol 1904. Canu gwych ac ysbrydoledig yn wir!

O tyred, lôr tragwyddol,
mae ynot ti dy hun
fwy moroedd o drugaredd
nag a feddyliodd dyn:
os deui at bechadur,
a'i godi ef i'r lan,
ei galon gaiff, a'i dafod,
dy ganmol yn y man.

Gwaredu'r saint rhag uffern
a phechod drwg ei ryw,
o safn y bedd ac angau,
a'u dwyn i fynwes Duw,
eu harwain dros fynyddoedd,
a thrwy yr anial chwith,
a grea nef y nefoedd
yn gân heb ddiwedd byth.

*William Williams, 1717–91
Caneuon Ffydd, 316*

Emyn: 'O tyred, lôr tragwyddol'

Rhan o gerdd hir William Williams, Pantycelyn (gweler adran yr Emynwyr), *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus*, oedd yr emyn hwn yn wreiddiol; fe'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1764.

Tôn: 'Whitford'

Cyfansoddwyd y dôn gan John Ambrose Lloyd (gweler adran y Cyfansoddwyr) a'i chyhoeddi am y tro cyntaf yn ei gasgliad o donau *Aberth Moliant* (1873). Pentref yn Sir y Fflint, sir enedigol Ambrose Lloyd, yw Chwitffordd. Roedd yn hoff o enwi tonau ar ôl pentrefi a threfi ei ardal enedigol ynghyd ag ardaloedd eraill, e.e. Abergele, Wyddgrug, Bryn-teg a Wynnstay.



Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

Diolch y tro hwn i'm cyfaill coleg, y Parchedig Jim Clarke, am brocio'r meddwl. Cof da amdano'n curo ar ddrws fy ystafell gyda gair o gysur ar ôl un arholiad – ond stori arall yw honno!

Yn rhifyn [5 Hydref](#) mae'n cyfeirio at erthygl yn y *Baptist Times*, lle mae'r Parchedig Richard Hardy yn rhannu ei brofiadau ynglŷn â gwaith gweinidog a 'burnout'. Fe atgoffodd hynny fi am y diweddard annwyl Barchedig Hugh Williams, Rhuddlan, un a bregethai yn dawel a thyner, syml a dirodres, a rhywbeth a ddywedodd ar ei bregeth flynyddoedd maith yn ôl, ac un hefyd a chwaraeodd ran yn fy mynediad i'r weinidogaeth. Fe ddof yn ôl ato yn y man!

Y gwir amdani ydi fod pwyslais, dawn, gallu ac argyhoeddiad pob gweinidog yn wahanol. Fe glywir weithiau fod y Parchedig 'hwn a hwn' yn 'ddyn pobol'. Wedyn fod yna Barchedig arall yn 'ddyn llyfr a stydi', ac wrth reswm mae angen llawer o amser i'r ddau. Dyma efallai oedd rhan o'u cymhelliad a'u galwad i'r weinidogaeth yn y lle cyntaf.

Fe wyddom hefyd y daw ambell ddyletswydd yn fwy naturiol i un gweinidog nag i un arall. Mae'n anodd ei dal hi ymhobman. Ac yma dof yn ôl at ein cyfaill o Ruddlan gynt a beth ddywedodd o'r pulpud tua 30–40 mlynedd yn ôl.

Fe adroddodd am flaenor a wnaeth y sylw wrth ei weinidog nad oedd yn pregethu cystal os oedd wedi cael wythnos brysor o ymweld. Ac meddai'r gweinidog wrtho, 'Wel, Mr Jones, fe gewch un ai fy mhen neu fy nhraed. Chewch chi ddim y **ddau!**'

Mae yna weinidogion sydd wedi cael llawer iawn mwy o brofiad ac sy'n fwy abal ac atebol na fi i gynnig cyngor i weinidogion prin a gwrol sy'n ddechrau ar eu gwaith heddiw. Ond siawns fod yna ychydig o wirionedd yn yr hanesyn hwn, fel canllaw i'w gwaith. Pob bendith iddynt Gweddiwn, bawb, am feddylgarwch a dealltwriaeth yr eglwys yn y gwaith.

Yn gywir iawn,

*Iorwerth P. Jones
Rhuthun*

Pi Teii

Diddorol oedd darllen am hanes ymweliad y grŵp Mizō â Chymru yn [Cenn@d](#), a gweld eu llun wrth fedd Gwen Rees Roberts yn Llanycil, a barodd imi feddwl am anfon gair atoch. Pan fu côr o Mizoram ar ymweliad â Chymru ychydig flynyddoedd yn ôl, cofir fel y buont hwythau yn Llanycil, a chlywed amdanynt yn canu wrth fedd Pi Teii a'm symbylodd i lunio'r gerdd fach hon.

LLEISIAU

(Cofio Gwen Rees Roberts)

Yr un fechan oedd hi –

Pi Teii –

A hwyliodd dros foroedd

I rannu dysg ac Efengyl ei Harglwydd

O galon eirias:

Yr un fechan

A'i chyfraniad yn ddifedur

I'r genedl a gymerodd at ei chalon.

Hyfryd i'w chlust

Oedd seiniau emynau ein cenedl

Yn adleisio

Uwch brynau gwlad ei mabwysiad.

Cenhedlaeth newydd

A etifeddodd y cof amdani;

Ac yn nhawelwch Llanycil,

Yn asbri eu hieuenctid,

A sirioldeb lliwiau Mizoram,

Safodd côr ger man gorffwys yr Un

Fechan,


Gan ddod â'r gân yn ôl.

*Myfanwy Bennett Jones,
Llanfair Pwllgwyngyll*

Y Brawd Andrew (1928–2022)

Yn ddiweddar daeth y newyddion fod y cymeriad arbennig hwnnw oedd yn adnabyddus fel y Brawd Andrew ar draws y byd wedi marw ar 27 Medi. I'r rhai ohonom sy'n cofio dyddiau'r Rhyfel Oer, pan oedd comiwnyddiaeth yn rheoli hanner dwyreiniol cyfandir Ewrop, roedd hynt a helynt y dyn hwn yn ysbrydoliaeth arbennig.


Fe'i ganed yn yr Iseldiroedd i deulu tlawd, ac o'r dechrau roedd ganddo ryw ysfa i chwilio am antur. Er y fagwraeth Gristnogol a gafodd roedd yn aml mewn trwbl, a chyda'i addysg wedi ei thorri'n fyr oherwydd y rhyfel, erbyn iddo gyrraedd yr oed i chwilio am waith ymunodd â'r lluoedd arfog er mwyn chwilio am ei antur draw yn



Indonesia, lle roedd yr Iseldiroedd yn ceisio dal gafael ar eu hymerodraeth. Wedi tymor gwyllt yno, fe'i hanafwyd a bu'n rhaid iddo fynd adref heb brofi'r llwyddiant a chwenychai. Daeth dan argyhoeddiad dwfn o'i bechod, a chan droi yn ôl at ei Feibl fe ymddiriedodd yng Nghrist am faddeuant.

Ond doedd y ffaith iddo ddod yn Gristion ddim wedi newid ei barodrwydd i fentro. Trwy amrywiol ffyrdd profodd alwad i fynd yn genhadwr. Ond yn hytrach na mynd draw i bellteroedd byd, fe ddaeth y cyfle iddo fentro i Ddwyrain Ewrop. Yno fe welodd yr angen am gynorthwyo'r eglwysi, a dechreuodd ar ei waith mawr. Un angen amlwg gan yr eglwysi oedd yn profi erledigaeth gan y Comiwnyddion oedd yr angen am Feiblau. Felly dechreuodd gario Beiblau draw i Ddwyrain Ewrop – a dyna sut y daeth i gael ei adnabod fel 'God's Smuggler'. Mae ei anturiaethau a'r profiadau arbennig gafodd o Dduw fel petaent yn dallu llygaid yr heddlu i'r cyfan roedd yn ei gludo ar draws ffiniau wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer, ac mae'r llyfr *God's Smuggler* yn parhau i fod yn glasur gwerth ei ddarllen. Yn wir, pan ddaeth y cyfle i minnau fentro i'r gwledydd comiwnyddol i gynorthwyo'r eglwys yno, roedd ei hanes yn rhan fawr o'r anogaeth i mi.

Ond mae'n hawdd iawn meddwl am yr anturiaethau. Beth am y dyn ei hun? Y peth cyntaf amlwg amdano oedd ei gariad at bobl. Roedd yn gweld pawb fel unigolion y gallai gras Duw drawsnewid eu bywydau. P'un a oedd yn siarad ag arweinydd byd-enwog megis Henry Kissinger neu ffoadur mewn gwersyll, roedd yn barod i geisio egluro cariad Duw yng Nghrist iddyn nhw.



Llun: https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Anne_van_der_Bijl.jpg#/media/File:Anne_van_der_Bijl.jpg

Yn wir, pan gefais gyfarfod ag ef, roedd yn ceisio cael ffordd i gyfarfod Osama Bin Laden er mwyn rhannu'r efengyl ag o. Yn ail, roedd yn argyhoeddedig mai neges y Beibl oedd yr unig ffordd i bobl profi gras Duw. Dyna pam, wedi dymchwel mur Berlin a'r chwyldro yn Nwyrain Ewrop, y trodd ei sylw tuag at y byd Mwslimaidd i sicrhau Beiblau i'r gwledydd hynny. Yn drydydd, fe weithiai nid yn unig i rannu Beiblau, ond hefyd i leddfu dioddefaint ffoaduriaid a Christnogion oedd yn cael eu herlid.

Dyma un oedd yn credu ac yn gweithredu ar sail y gred honno, a'i ffydd yn esiampl a her i ni holi ein Harglwydd unwaith eto: "Pa beth a fynni di i ni ei wneuthur?"

Dafydd Job

Y Gymdeithasfa yn y De

Cynhelir Cymdeithasfa'r De ddydd Iau, 20 Hydref, yng Nghapel Newydd, Llanddarog. Bydd te a choffi ar gael am 9.30 o'r gloch, a'r eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10.00 y bore. Bydd hon yn sasiwn hybrid. Mae croeso i chi i ddod i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, neu gallwch ymuno trwy Zoom. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni, lle bynnag y byddwch.

Os ydych yn dymuno presenoli eich hunain yn y capel, a fyddwch cystal â gadael i mi wybod mor fuan ag y bo modd, er mwyn trefnu lluniaeth yn ystod y dydd?

Byddwn yn llongyfarch gweinidogion a blaenoriaid yn ystod Gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn yr eisteddiad cyntaf, ac yn cyflwyno tystysgrifau iddynt. Gweddiwn am arweiniad yr Arglwydd ar yr holl weithgareddau.

Yr eiddoch yng Nghrist,
R. Anthony Platt
Ysgrifennydd y Gymdeithasfa





O Gefn Gwlad



Partneriaeth

Tynnwyd fy sylw yn ddiweddar gan ddatganiad a wnaed gan yr athronydd asgell dde o'r ddeunawfed ganrif Edmund Burke, dyn arbennig iawn. A minnau'n bytheirio yn aml am fod S4C yn cynnwys Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg, dyma finnau, mewn print, yn disgyn i'r un bai. Ond wir, fedra i ddim gwneud llawn gyfiawnder â'r datganiad wrth ei gyfieithu. Felly, maddeuant os gwelwch yn dda!

Dyma ddwedodd o wrth sgrifennu am gymdeithas:

Society is a partnership in all science, a partnership in all art; a partnership in every virtue and in all perfection. As the ends of such a partnership cannot be obtained in many generations, it becomes a partnership not only between those who are living, but between those who are dead and those who are yet to be born.

Y ddau air a dynnodd fy sylw oedd rhinwedd a pherffeithrwydd, gan ofyn beth yw rhan y tri chyfnod bodolaeth – gorffennol, presennol a dyfodol, cyfnodau a chenedlaethau nad oes terfynau pendant iddynt, medde fo – mewn sicrhau hyn?

Gan y rhai a'n gadawodd cawsom ddaioni neu ddrygioni, cawsom ddrwg neu dda, cawsom obaith neu anobaith, heddwch neu ryfel, cariad neu gasineb. A gallem fynd ymlaen ac ymlaen i restru. Beth wnawn ni â'r etifeddiaeth hon? Mae'r ateb ar un olwg yn syml, a dilyn awgrym yr Ysgrhythur – dal ar yr hyn sy dda. Ie, yn sicr, a cheisio dadwneud yr hyn sy ddrwg. Hawdd ambell



Llun: Wikimedia/NPG

dro, anodd ar y naw weithiau gwybod, er enghraifft, be' sy'n dda a be' sy'n ddrwg; beth i'w gadw a'i feithrin a beth i'w dministrio a'i ladd. A nodi un enghraifft yn unig: yr agwedd at briodas. Pechod oedd cyd-fyw cyn priodi ar un amser; erbyn hyn daeth yn arferiad cyffredin. A phriodas a bedydd yn digwydd yr un amser ar brydiau hefyd. Ac mae peidio priodi o gwbl yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Da neu ddrwg? Trafodwch!

Y mae'r etifeddiaeth a gawsom felly yn gallu bod yn anhawster i ni sy'n dal yn fyw, y ni sydd yn y presennol, yr unig amser y mae gennym unrhyw reolaeth arno. Y ni sy'n gorfod penderfynu beth yw rhinwedd a beth yw perffeithrwydd, a chan ddod i farn mewn byd cymhleth i'w ryfeddu. Beth sy'n werth ei feithrin a'i gadw i'r dyfodol ar gyfer y rhai nas ganwyd eto a beth sydd

angen ei newid neu ei ddifa? Does ganddyn nhw, y rhai heb eu geni, ddim cyfrifoldebau; dydyn nhw ddim yn bod, ond fe fyddant, a byddant yn derbyn beth bynnag yr ydym ni wedi ei adael neu ei drosglwyddo iddynt. Y ni fory fydd pobol ddoe iddyn nhw, y rhai a aeth 'o'u blaenau'.

A oes gan y Beibl, a oes gan yr Efengyl yr ateb i ni? Os nad oes, mae hi'n go dywyll arnom, yn tydi? Mi allen ni ofyn, ym mhob sefyllfa y cawn ein hunain ynddi, sefyllfa anodd ddiddatrys falle, beth wnâi Crist yn wyneb y broblem hon? Beth fyddai ei benderfyniad o? Ond yr anhawster i ni wedyn fyddai dod i wybod yr ateb hwnnw. Trwy ddarllen yr Efengylau? Trwy weddi? Falle, ond falle hefyd y byddem yn ôl, fel bob amser, gyda'n barn a'n rhagfarn a'n goleuni ein hunain, gan wneud penderfyniadau ar sail yr wybodaeth sy ganddon ni, rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn naturiol, os mai dyna'r gair, bob dydd.

Gallem hefyd ystyried gorchmynion mawr y Beibl: cerwch eich gelynyon, câr dy gymydog fel ti dy hun. Geiriau sy'n swnio'n dda, geiriau sy'n swnio fel atebion perffaith i gymaint o'n problemau, i gymaint o'r cwestiynau a ofynnir ganddon ni. Ond, bobol bach, dydyn nhw ddim yn atebion hawdd, ydyn nhw? Ac eto, dylem rywsut geisio datrys pob problem gan ein bod, yn ôl Edmund Burke, nid yn unig yn bartneriaeth gyda'r rhai a'n gadawodd ond hefyd gyda'r rhai sy'n dod ar ein holau. Er dim ond yn fabanod neu hyd yn oed heb eu geni hyd yn hyn, maen nhw'n dibynnu arnon ni.

Elfy Pritchard

Dathlu

Nos Sul, 2 Hydref 2022, cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, i ddathlu cyfraniad 'Ieuan Gwyllt Gelltydd Melindwr'. Mae'n amlwg, o'i ddewis enw, fod John Roberts (1822-77) yn anwylo bro ei febyd. Ond buan y talffyrwyd ei enw barddol trwsyl i 'Ieuan Gwyllt'.



Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i glywed cyflwyniad gan Dr Rhidian Griffiths am Ieuan Gwyllt a chawsom gyfle i ganlyn ei yrfa o Gapel Seion i Ben-llwyn, o Aberystwyth i Lerpwl, o Aberdâr i gapel Pant-tywyll, ger Merthyr Tudful, ac o'r Capel Coch, Llanberis, i'w gartref wedi ei ymddeoliad yn y Fron, Llanfaglan. Cawsom gyfle i glywed am ei gyfraniad i'r diwylliant Cymraeg, ei gyfnod fel golygydd, ac yn bennaf am ei waith yn hybu canu cynulleidfaol.

Rhwng y gwahanol 'benodau' o'i fywyd cawsom gyfle i ganu rhai o'i emyn-donau ac addasiadau ganddo o emynau mawreddog sy'n parhau i fod yn adnabyddus – tonau urddasol fel Liverpool, Dusseldorf a Moab. Cawsom gyfle i ganu rhai emynau 'lolipop' poblogaidd a hybwyd gan Ieuan Gwyllt, caneuon a boblogeiddiwyd yn y lle cyntaf gan Sankey a Moody. I derfynu, canwyd ei addasiad o eiriau Lewis Hartsough, 'I hear thy welcome voice'. Gwell na'r emyn gwreiddiol yw geiriau Ieuan Gwyllt, 'Mi glywaf dyner lais'!

Arweiniwyd y canu gyda'i brwdfrydedd arferol gan Margaret Daniel, Blaenannerch, a chyfeiliwyd i'r canu gan Alan Wynne Jones, Bow Street. Rhyngddynt llwyddwyd i ddenu canu rhagorol o'r gynulleidfa. Llywyddwyd y noson gan Bronwen Morgan, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, a ddiolchodd yn garedig i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniad. Cyflwynwyd y fendith gan y Gweinidog, y Parch Ddr R Watcyn James, a gafodd y syniad gwreiddiol o drefnu oedfa i nodi dauganmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt.

Llawenydd oedd cael gweld cynifer wedi aros i sgwrsio o amgylch y wledd o groeso a ddarparwyd gan aelodau Pen-llwyn. A derbyniwyd mewn casgliad rhydd y swm o £232 tuag at Apêl Hadau Gobaith. Diolchwn fod 'Gwahoddiad' yr efengyl yn parhau i alw arnom at Iesu i'n golchi, i gryfhau gwaith gras o'n mewn ac i'w ogoneddu ym mhob oes.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

4 Bendithion Abraham, ein bendithion ni

Darlleniad – Hebreaid 11: 8–12, 17–19

Wrth inni baratoi i symud at yr hanesion am Abraham yn Genesis, rydym am dreulio'r sesiwn yma'n edrych ar yr hyn oedd ymhyg yn y fendith i Abraham, yn arbennig gyda golwg ar sut y mae'r rhain yn gysgod o'r bendithion yr ydym ni yn eu derbyn. Fe gofiwch fod yr addewid cyntaf am fendith yn adnodau 2–3 o bennod 12: 'Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di; mawrygaf dy enw a byddi'n fendith. Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio, a mellithiaf y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear.'

Yn ei alwad mae Duw yn rhoi amryw addewidion i Abraham ac, fel yn ein hanes ni, er nad yw Duw yn ateb cwestiynau fel 'Pam?' neu 'I beth?', mae ei addewidion yn sicr. Yn gyffredinol cawn ddau fath o addewid – y rhai sy'n addewidion diamod, a'r addewidion amodol. Mae'r addewid na fydd Duw yn ein gadael yn un diamod, tra mae addewid fel 'rhowch ac fe roddir i chi' yn amodol. Yn achos Abraham, mae'n derbyn addewid o fendith oedd yn amodol ar y dechrau ond yn ddiweddarach mae'n ddiamed, e.e. mae'r addewid am fod yn genedl fawr yn amodol ar ufudd-dod Abraham ym mhennod 12, ond ym mhennod 15 mae'r addewid am gael Duw yn darian (adn. 1), cael mab (adn. 4) a'r wlad (adn. 7) yn ddiamed.

Fel yr awgrymais eisoes, yn gyntaf mae yna addewid o fendith gyda golwg ar y tir. Mae pennod 12:7 yn dweud y bydd Duw yn rhoi gwlad iddo. Fel y gwelwch o'r darlleniad yn yr Hebreaid, mae yna fwy i'r fendith yma na'r hyn sydd yn Genesis, gan fod y wlad yn gysgod o'r wlad nefol y bydd Duw yn fendithio pob un o'i blant â hi yn y diwedd. A dweud y gwir, chafodd Abraham ddim o'r wlad yn llythrennol; yn hytrach bu'n crwydro ac yn byw mewn pebyll fel dieithryn. Mae Duw yn galw pob un o'i blant i fyw mewn lle, ac ambell dro i fyw mewn llefydd amrywiol. Er nad ydym ni'n llythrennol yn byw mewn pebyll fel crwydriad, eto, rydym yn gwybod nad dyma'n gwlad. Fel y dywed Iesu, dyna lle mae ein trysor parhaol ni (Mathew 6:20).

Yn ail, mae Duw yn addo gwneud Abraham yn genedl fawr. Wrth dderbyn yr addewid yr oedd Abraham, neu Abram fel y gelwid ef ar y pryd – gair sy'n golygu 'tad wedi ei ddyrchafu', yn ddi-blant. Yn ddiweddarach mae'n derbyn enw newydd, Abraham, enw sy'n golygu 'tad lliaws'. Mewn diwylliant lle'r oedd bod heb blant yn gywilydd, ceir addewid y bydd Duw yn symud y gwarth ac y byddai'n dad i fwy na phlentyn, yn hytrach i genedl. Dyma'r genedl fyddai'n fendith i'r byd, yn cychwyn gydag Israel a'r cenedl-ddynion

oedd yn ymuno â hwy, ac yna'r Eglwys. Yn ôl Paul yn Galatiaid 3:7: 'Gwyddoch, gan hynny, am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham.' Yn ddiweddarach yn y Testament Newydd, yn 1 Ioan 2 mae Ioan yn cyfeirio at y ffordd rydym ni'n 'cael plant' hefyd wrth inni rannu Iesu ag eraill.

Yn drydydd, mae Duw yn addo rhoi enw i Abraham. Yn ddiddorol, yn Genesis 11 yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â thŵr Babel yw awydd pobl i wneud enw iddynt eu hunain (Genesis 11:4). Ond, yn hanes Abraham, nid oes angen iddo ef ddiogelu enw iddo'i hun; mae'n addewid gan Dduw, addewid sy'n cael ei sylweddoli yn Genesis 23:6. Mae'r temtasiwn cyntaf yn y Beibl yn ymwneud â'r awydd i fod fel duwiau, a does fawr wedi newid, gydag ymdrech pobl i sicrhau enw drwy gryfder, cyfoeth, poblogrwydd ac ati. Ond Duw sy'n gwrthwynebu'r balch yw ein Duw ni, Duw sy'n dyrchafu'r isel, yn dweud mai'r addfwyn yw'r etifeddion (Mathew 5:5). Mae'r fendith y mae Abraham yn ei derbyn yn troi dyheadau arferol ben i waered, a dyma'r fendith yr ydym ni'n dyheu amdani: 'Ymddarostyngwch, gan hynny, dan law gadarn Duw, fel y bydd iddo ef eich dyrchafu pan ddaw'r amser' (1 Pedr 5:6).

Yn bedwerydd, mae Duw yn addo y bydd Abraham yn fendith. Yn wir, dyna oedd prif ddiben bendithio Abraham: nid bendith iddo ef ei mwynhau yn ecsclusif, ond bendith er mwyn bendithio. Dyma'r Duw sy'n ein bendithio, 'er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder' (2 Corintiaid 1:4). Ond, yn fwy penodol i ni, bydd y fendith y mae'n ei derbyn yn fendith i holl bobl y byd. Er bod cenedl-ddynion wedi dod yn rhan o bobl Dduw yn yr Hen Destament, wedi dyfodiad Iesu mae bendith Abraham yn ymestyn i bawb yn ddiwahân. Iesu yw 'had Abraham', yr un had ag y mae Paul yn cyfeirio ato yn Galatiaid 3:16: 'Yn awr, i Abraham y rhoddwyd addewidion y cyfamod, ac i'w had ef. Ni ddywedir, "ac i'w hadau", yn y lluosog, ond, "ac i'w had di", yn yr unigol, a'r un hwnnw yw Crist.'

1. Mae Duw wedi ein galw i le arbennig. A yw wedi ein gwneud yn etifeddion gwlad arbennig? Sut mae byw yn y lle â'n golwg ar y wlad?
2. Pa mor bwysig yw rhannu ffydd i chi os mai trwy ei bobl y mae Duw yn estyn y teulu?
3. Sut fyddwch chi'n osgoi'r awydd i wneud enw i chi eich hunan, neu hyd yn oed enw i'ch eglwys?
4. Pa bedwar peth fedrwch chi ymrwymo i'w gwneud i fod yn fendith i bobl eraill yr wythnos yma?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 23 Hydref am 7.30yh

Bydd Lisa ym Mro Arduw yn ymweld ag Eglwys Llandanwg, yr eglwys yn y tywod, a bydd Nia yn sir Fôn yn rhyfeddu at eglwys unigryw

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 23 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Salem, Llangennech

Sul, 23 Hydref, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Analyn Davies, Sanclêr

O'r Llwyfan

Bedyddwyr Ewrop, Canolbarth Asia a'r Dwyrain Canol yn cyfarfod yn Riga, Latfia

Hyfrydwch oedd cael cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru yng nghyfarfod Cyngor Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop, Canolbarth Asia a'r Dwyrain Canol, a gynhaliwyd eleni yn Riga, Latfia, 21-24 Medi. Dyma'r cyfarfod cyntaf llawn o'r Cyngor ers y pandemig, a'r cyntaf hefyd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd, sef y Parchg Alan Donaldson, cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol Undeb Bedyddwyr yr Alban.


Profiad amhrisiadwy oedd cyfarfod pobl o'r gwahanol wledydd wyneb yn wyneb a chael treulio amser yn eu cwmni ar lawr y gynhadledd mewn grwpiau trafod ac ar adeg pryddau bwyd. Yn naturiol, roedd addoliad a defosiwn yn rhan bwysig o'r tridiau, a chynhaliwyd oedfa agoriadol y gynhadledd yn Eglwys Matthew, Riga, lle cawsom gyfle i glywed yr iaith frodorol yn cael ei defnyddio. Y pregethwr gwadd oedd Kaspars Šterns, Undeb Bedyddwyr Latfia, a cawsom ein herio ganddo i beidio â throi ein cefnau ar yr heriau a wynebir gennym heddiw ond i sicrhau undod ysbrydol a chanolbwyntio ar ein gwaith o rannu neges Crist. Ynghanol yr holl drafferthion gwleidyddol ac economaidd, meddai, digon hawdd oedd colli golwg ar weledigaeth Duw a meithrin agweddau negyddol tuag at ein gilydd a'r byd o'n cwmplas, ond rhaid oedd parhau i gyfathrebu neges y Deyrnas gan hyrwyddo agenda'r ffydd Gristnogol yn ffyddlon ac yn ddi-ildio.

Yn ystod y gynhadledd derbyniwyd adroddiadau a diweddariadau o'r gwledydd a'r rhanbarthau gwahanol. Testun diolch oedd medru cydlawenhau gyda'r Undebau o Ffrainc, Portiwgal a Sbaen ar ddathlu eu canmlwyddiant, a hynny'n arbennig o gofio mai prif fynegiant Cristnogaeth y gwledydd hyn yw'r Eglwys Gatholig, gyda'r Bedyddwyr yn sicr yn y lleiafrif. At ei gilydd, mae ganddynt tua 22,500 o aelodau yn perthyn i ryw 288 o eglwysi. Deisyfwyd bendith Duw ar eu gwaith ac i'r dyfodol.

Roedd cynrychiolaeth yn bresennol o'r rhan fwyaf o wledydd y Ffederasiwn, ond yn anffodus nid pawb oedd wedi llwyddo i sicrhau fisa, ac wrth gwrs ni chafwyd cynrychiolaeth o'r eglwysi bedyddiedig yn Rwsia. Yn naturiol, rhoddwyd tipyn o sylw i'r rhyfel rhwng Wcráin a Rwsia a'r gwaith aruthrol a gyflawnid gan yr eglwysi yn y gwledydd cyfagos wrth iddynt ymateb i'r sefyllfa ddyngarol trwy gynorthwyo a chroesawu'r miliynau o ffoaduriaid. Clywsom fel y cafodd yr Athrofa Feiblaidd Ewropeaidd ynghyd â thua 40 o eglwysi eu dinistrio; roedd 120 o weinidogion wedi cael eu galw i gyflawni gwasanaeth milwrol, â rhai gweinidogion bellach yn cwestiynu eu galwedigaeth. Er gwaethaf popeth cynhaliwyd tua 300 o wersylloedd yn ystod yr haf i blant a phobl ifainc, ordeiniwyd



Y Parchg Alan Donaldson, Ysgrifennydd Cyffredinol y Ffederasiwn



Oedfa Agoriadol yn Eglwys Matthew

40 o weinidogion newydd a bedyddiwyd dros 2,000 o Gristnogion newydd. Roedd yr eglwysi yn Wcráin yn ymwybodol bod miliynau o bobl ar draws y byd yn cofio amdanynt mewn gweddi gyson ac yn deisyf am gael gweld heddych cyfiawn. Cawsom ein hannog hefyd i gofio am ein brodyr a chwiorydd yn Rwsia, lle mae 70,000 o Fedyddwyr yn perthyn i 1,640 o wahanol eglwysi.

Er i'r rhyfel yn Wcráin hawlio cryn sylw, nid dyma'r unig her a wynebai gwledydd y Ffederasiwn. Nodwyd fel yr oedd pob gwlad yn profi cynnydd mewn seciwlaeriaeth, yn ceisio ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd ac yn pryderu am brinder tanwydd. At hynny, roedd y sefyllfa economaidd yn destun gofid ar draws y cyfandiroedd.

Tristwch hefyd oedd clywed am sefyllfaoedd anodd a heriol yn y Dwyrain Canol mewn gwledydd fel Lebanon, lle disgrifiwyd yr argyfwng economaidd fel yr un gwaethaf yn y byd gyda phobl yn gorfod ymgodymu ag anawsterau cynyddol o ddydd i ddydd.

Wrth wrando ar rai o'r heriau a wynebir gan Gristnogion ar draws Ewrop bu'r Cyngor yn sicr yn gyfrwng i gynnig cefnogaeth, anogaeth a chymdeithas yr Efengyl i'r holl gynrychiolwyr. Bu'r tridiau nid yn unig yn gyfle i rannu profiad ond hefyd i atgoffa ein hunain am ffyddlondeb Duw yn y gorffennol ac o realiti gobaith yr Atgyfodiad a phresenoldeb byw yr Ysbryd Glân sydd wrth law bob amser i'n harwain a'n hymgeleddu.

“Felly ymnertha di ... yn y gras sydd yng Nghrist Iesu” (2 Timotheus 2:1).

Judith Morris

Ffarwelio a diolch

Ers lansio *Cenn@d* 18 mis yn ôl mae'r rhifynnau wedi bod yn ymddangos yn brydlon ar wefan cennad.cymru, ac er mwyn hyrwyddo cylchgrawn mae tri phostiad wythnosol yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Y person sydd wedi bod yn gofalu am hyn yn wythnosol yw Alice Williams, hithau wedi ei lleoli yn swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yng Nghaerdydd. Erbyn hyn mae Alice yn symud ymlaen i swydd newydd, a hwn fydd y rhifyn olaf iddi fod yn gofalu amdano. Diolchwn iddi am ei gwaith gofalus a thrwyadl, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Tim golygyddol *Cenn@d*

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Dyrchafu a darostwng

Emyn 331: 'Pa le, pa fodd?'

Darlenn: Salm 65

Gweddi

Y mae mawl yn perthyn i ti, o Dduw, oherwydd dy gariad mawr a'th ffyddlondeb diwyro tuag atom. Yn dy drugaredd erfyniwn arnat i wrando ar ein gweddïau, i faddau i ni ein pechodau, i barhau i ddarparu pob un dim sydd ei angen arnom. Y mae dy fawredd yn gwahodd y ddaear yn grwn i'th foliannu. Derbyn di, o Arglwydd, ein mawl ninnau hefyd, er mor annheilwng yr ydym o gael nesáu atat. Ti yw'r unig un sy'n llwyr deilwng o'n moliant. Drwy dy Ysbryd Glân, erfyniwn arnat i'n galluogi i symudy tu hwnt i ddisgwyliadau arwynebol am gynnal oedfa arall, arferol. Caniatâ i ni brofi dy bresenoldeb, a chaniatâ i ninnau hefyd y ddawn o fedru clywed dy lais yn ein cyfarch heddiw. Gofynnwn hyn drwy lesu Grist dy fab, Amen.

Darlenn Luc 18:9-14 – 'Dameg y Pharisead a'r Casglwr Trethi'

Yn debyg i'r wythnos diwethaf, mae Luc am i ni ddeall ar unwaith beth oedd diben y ddameg hon. Cyfarch pobl 'oedd yn sicr eu bod hwy eu hunain yn gyfiawn, ac yn dirmygu pawb arall' a wnaeth lesu. Yna, yn ei grynhoed o'r ddameg, down wyneb yn wyneb ag egwyddor sylfaenol athrawiaeth yr Efengyl yn ôl Luc. Arglwydd Dduw ydyw nad yw'n parchu anrhydedd bydol na statws cymdeithasol. Ef yw'r un a 'wasgarodd y rhai balch eu calon' ac a 'dynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl; llwythodd y newynog a rhoddion ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw' (Luc 1:50-53; 4:17-19). Ym mhresenoldeb lesu, 'darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun' (18:14).

Y ddrama

Dau gymeriad sydd i'r ddrama. Y Pharisead cyfoethog, anrhydeddus ac uchel ei barch, oedd y perfformiwr cyntaf. Casglwr trethi cyfoethog, anonest a dirmygedig oedd yr ail.

Yr Awr Weddi

Gallwn ddyrchafu'r ddau yn dringo i'r deml ar awr weddi tua 3 o'r gloch y pnawn. Aethant ill dau i weddio tua'r un adeg, ond yn sicr nid aethant gyda'i gilydd. Yn ystod yr awr weddi yn y prynhawn byddai oen

yn cael ei aberthu dros bechod y bobl, a byddai'r offeiriad yn mynd â'r gwaed i'w daenellu ar yr allor fewnol ac i eiriol am faddeuant dros bechod.

Y Llys Barn

Yn ddiarwybod bron mae ieithwedd y llys barn yn llithro i mewn i'r digwyddiad.

I ryw raddau mae hynny'n anrffod gan fod pob cyfarfyddiad rhyngom a Duw, a phob dyfodiad gan Dduw at y ddynoliaeth, yn ddyfodiad mewn barn. Pa fath arall o gyfarfyddiad sy'n bosib pan ddown â'n gwrthryfel a'n haml feiau i'w wrydd? Duw sydd yn ei hanfod yn 'oleuni' ydyw, heb gysgod yn perthyn iddo. Sut mae modd i wrthryfelwyr sefyll o gwbl ym mhresenoldeb Arglwydd y Deyrnas heb i lygredd a brad ein calonnau gael eu dadlennu?

Gwyddai'r casglwr trethi a'r Pharisead fel ei gilydd, wrth gymryd rhan yn y ddefod grefyddol oedd yn cael ei gweithredu o'u blaenau, fod angen maddeuant arnynt os oedd ynt i fedru sefyll ym mhresenoldeb yr Arglwydd. Gwybodaeth arwynebol o'r egwyddor oedd gan un ohonynt. Ac nid y grefyddwr moesol oedd hwnnw!

Hunangyfiawnder

Pan gyfarchodd y Pharisead yr Arglwydd, roedd am i'r Hollalluog, drwy gydol ei weddïau, wybod am y rhinweddau a berthynai iddo. Gobeithiai y byddai'r rhinweddau oedd ynddo'n troi'r ddeddfryd o'i blaid. Cytunai mewn egwyddor ei fod yn haeddu condemnad. Roedd newydd wlyio oen yn colli ei waed er ei fwyn! Ond yn ei galon ni chredai fod angen ei gyfiawnhau gan rywun arall, ddim hyd yn oed gan Dduw. Wedi'r cyfan, pe clywai'r Hollalluog am ei rinweddau niferus, Ef fyddai'r cyntaf i symud unrhyw euogrwydd arhosol a berthynai i'r Pharisead moesol hwn oddi wrtho. Byddai'r Hollalluog yn siŵr o'i gyfiawnhau, a'i ollwng o'r llys heb unrhyw gondemniad posib!

Y Pharisead

Wrth ddringo'r grisau i'r deml roedd holl osgo'r Pharisead yn ddatganiad cyhoeddus ei fod yn selog i Gyfraith yr Arglwydd. Perthynai i blaid grefyddol oedd yn trafod byth a beunydd gwestiynau oedd yn ymwneud â chadw'r gyfraith. Gwnaethai bob ymdrech i sicrhau na fyddai'n llithro y tu hwnt i ffiniau aneglur y Gyfraith drwy

osod rheolau eraill fel gwrthglawdd oddi mewn i'r ffiniau. Cyhoeddai ei wisg a'i gerddediad urddasol ei fod o blaid purdeb crefyddol a'i fod yn selog dros grefydd ei dadau.

Felly, dringodd y Pharisead gofalus hwn i'r deml yn sicr o'i 'burdeb' defodol. Safai ar wahân i bawb arall. Mor gyfiawn oedd ei fywyd! Mor falch ddylai Duw fod ohono! Yr oedd yn hyderus nad oedd fel 'pawb arall', ac yn sicr yn fwy crefyddol na rhyw gasglwr trethi. Onid oedd yn hael ei gyfraniadau i'r achos? Onid oedd yn ŵr moesol ac yn ymprydio y tu hwnt i ofynion y gyfraith? Nid oedd wedi deall bod yr hyn sy'n halogi cymeriad yn fewnol yn tarddu o'r galon (Mathew 15:15-20).

Y casglwr trethi

Safodd y casglwr trethi ar gyrion y defodau crefyddol, 'ymhell i ffwrdd'. Roedd y 'pellter' a deimlai yn adlewyrchiad o'r pellter gwirioneddol oedd rhyngddo a'r Arglwydd. Nid ymfrostiai o gwbl, ond ymostyngodd â'i lygaid a'i galon. Gwyddai nad oedd hawl ganddo, na dadl o'i blaid, i'w alluogi i ddod yn hyderus gerbron yr Arglwydd. Curai ei fron mewn poen enaid, a dyfnder ei wrthryfel yn rhwygo'i gydwybod. Gwyddai mai 'pechadur' – gwrthryfelwr yn erbyn Duw – ydoedd. Un euog; un heb ffordd o'i gyfiawnhau ei hun. 'Trugaredd' oedd ei angen pennaf, ac er ei gyfoeth nid oedd modd prynu trugaredd. Bwriodd ei hun ar drugaredd Duw (Micha 7:18-20). Bwriodd ei hun ar amynedd, ar dosturi, ar garedigrwydd di-droi'n-ôl Duw tuag at rai edifeiriol. Daeth fel ag yr oedd, yn wrthryfelwr, a'i fwrw ei hun ar drugaredd a maddeuant yr Arglwydd y gwrthryfelodd yn ei erbyn!

Sioc

Pe bai'r Pharisead wedi nesáu at Dduw fel y casglwr trethi, byddai wedi dychwelyd mewn llawenydd fel 'y llall'. Yr un a'i taflodd ei hun ar drugaredd Duw a gafodd y dyfarniad o'i blaid, nid y 'llall' a fynnai chwythu ffanffer ei gyfiawnder ei hun gerbron yr Arglwydd.

Wedi'r cyfan, 'darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun, a dyrchefir pob un sy'n ei ddarostwng ei hun'.

Gweddi

Beth am ddefnyddio geiriau emyn 175 (O'th flaen, o Dduw, rwy'n dyfod) fel ein gweddi heddiw?

Emyn 342: 'O Iesu, y ffordd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)